

**Y GWAHANIAETH** sylfaenol, meddan nhw i mi, rhwng *magen* a *niwc*, hynny ydy yn iaith Cofis tref Cynarfon, yw'n syml iawn *magen*. Gwerth *magen* yw hanner ceiniog, welwch chi, ac y mae *niwc* yn geiniog.

Rhyw gyflwyniad bychan mathemategol fel 'na cyn bwrw i'w chanol hi, fel petae, oherwydd yn y rhifyn hwn ein testun yw *Arian* a'r modd y mae Cymry yn trin a thrafod arian o bob math, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mi alla'i warantu fod 'na ddigon i'w drafod ac na fyddwch yn medru dweud dan eich gwynt nad oes gennyh yn un geiniog goch ulw ar eich cyfer heb sôn am fynd ati i drafod arian!

*Beth yn union sydd ar gael yn y Gymraeg ar destun mor ben agored ag Arian?*

#### Mathau o Arian

*Roberts, Thomas.* Hen bres Cymreig. **Herald Cymraeg** Medi 2il 1963 t.8;

*Roberts, Selyf.* Can ceiniog yn bunt. **Y Genhinen** Gwanwyn 1971 tt. 81-85.; Pres Newydd: arian degol; effaith cyflwyno cyfundrefn newydd o gyfrif ar eirfa pobl; diflaniad geiriau e.e. grot; dimai .....

*Lloyd, W.J.* Ffeithiau ynglŷn â'r geiniog. **Y Crynhoad** Mai-Mehefin 1950 tt. 59-61; sut y dechreuwyd casglu arian - beth i'w gasglu; *Cerdd y gini melyn bach.* **Herald Cymraeg** Ionawr 6ed 1925 t.2.; Colofn Carneddog 'Manion o'r Mynydd'; geiriau'r gerdd enwog;

*Jones, Ivor Wynne.* **Hanes y bunt Gymraeg.** Llandudno: Cwmni y Ddafad Ddu Cymraeg, 1969; darl.:64 t.; cyf. o'r Saes.;

#### Banciau

*Brown, Brenni.* Bancio yng Nghymru. **Y Genhinen** 1973-74 tt. 26-27; **Y Banciau Cymreig. Y Genhinen** gaeaf 1974 tt.90-94; *Crick, W.F./Wadsworth, J.E.* (cyf. *R.T. Jenkins*) **Canrif o Hanes Banc Gogledd a Deheudir Cymru.** Llundain: Banc y Midland, 1936; darl.; 38 t.; hanes sefydlu banciau yng Nghymru.

**Banc Lloyd. Cymru'r Plant.** Ionawr 1952 tt. 16-18; darl.; *Davies, Richard.* Porthmyn yn codi banciau. **Y Ford Gron** Mawrth 1935 tt. 105-106; banciau Y Ddafad Ddu, Y Llong, Yr Eidion Du, Y Ceiliog, Yr Ysgub.

*Lewis, Gwyneth.* Un ddafad ddu - un bunt. **Y Casglwr Rhagfyr** 1977 t.8; *Perkins, D.V.L.* Sut y gwelaf fy swyddogaeth fel rheolwr banc. **Barn** Ionawr 1976 t.27; Adran Ysgolion;

#### Bathu

*Leonard, C. Harris.* Rhamant y darn chwech. **Y Ford Gron** Tachwedd 1933 t.11. a th. 24; ff.d./g.;

## Y FFURETWR BACH yn trin

# ARIAN

#### Darganfod

*Carneddog.* Dernyn arian neillduol. **Herald Cymraeg** Gorffennaf 2il 1912 t.6.; Robert Williams, Bod Unig, Croesor ym Meirion yn dod o hyd i ddarn arain yn Ffynnon Elan, ger Croesor; llun pen dyn ar un ochr; llun telynor yr ochr arall; colofn 'O Wlad y Wyddfa';

*Jones, Robert Isaac (Alltud Eifion).* **Y Gestiana.** Tremadog: R.I. Jones, 1892; aa. 1975 t.23; nifer o ginis penrhaw ac arian bathol Wm.3ydd: Ynys Fadog.

#### Rheolaeth Ariannol

*Llawlyfr y Busnes Bach.* Rwrdd Datblygu Cymru Wledig, 1980;

#### Yswiriant Cenedlaethol

*Eddy, John (cyf. David Jones (Glan Tecwyn)).* **Arweinydd poblogaidd i'r Ysiwriaeth Genedlaethol - y ddeddf yn cael ei dosrannu a'i hegluro yn llawn gan fargyfreithwr.** Blaenau Ffestiniog: J.D. Davies a'i gwmi, 1912; 88;

#### Sut i hyrwyddo'r diddordeb mewn casglu arian?

Yn gyntaf oll rhaid penderfynu beth yn hollol yr ydych yn chwilio amdano:

i. ai cyfnod arbennig?

ii. ai math arbennig o arian?

Gellid creu sialens, er enghraifft casglu ceiniogau ran blwyddyn eu bathu. Rhydd hyn gyfie i chwi mewn gwirionedd weld beth sydd yn brin a pha beth sydd ar gael. Yr hyn a rydd werth i'ch casgliad:

a. math arbennig; b. prinder; c. hynoddedd.

Y mae'n hanfodol gwneud y defnydd o'r canlynol:

#### A.

**Y Llyfrgell Leol:** Adran Gyfeiriadol: Catalogau fel y gallwch gymharu darnau arian â'i gilydd, a hynny ran pris, bathiad, cyflwr ac yn y blaen;

#### B.

Cylchgronau sy'n ymdrin ag Arian; ymholer yn y siopau ac yn y llyfrgelloedd; anfoner deunydd i gylchgronau er mwyn gwyntyllu - dyna ddiben

#### Y Casglwr er enghraifft;

#### C.

Mynychu a nodi amseroedd Ffeiriâu Hen Bethau; cadw golwg yn y newyddiaduron lleol am rag-hysbysebion;

#### CH.

Ymweld â siopau hen bethau; bargeinio; gwybod gwerth a medru arbriso;

#### D.

Cadw a Chofnodi; ble, pryd, pris eitemau a brynwyd a. cadw ar ffurf cardia; ffeilio. b. mewn llyfr cofnodion; Gofalu fod gennyh gyfeiriadau:- 1. Gwerthwyr, 2. Casglwyr eraill yn y maes.

#### DD.

Ceisio cyfarfod casglwyr eraill; Clybiau ac ati a thrafod drwy gyfrwng y Gymraeg;

Ebe'r hen bennill ysmala hwnnw:

*Bu gennyf ffrind a cheiniog hefyd,  
Ac i'm ffrind mi rois ei benthg  
Pan eis i nôl fy ngheiniog adre,  
Collais i fy ffrind a hithe.*

Ni ddylai hi ddod i hynny yn eich hanes chwi, oherwydd darbodaeth piau hi bob gafael. Ni chollwch ddim oll - ond i chwi gymryd diddordeb!

## HEN DREFN YN YR YSGOL SUL

### Gan MARGARET HEYWOOD

MEWN busnes gwerthu llyfrau ail-law mae'n aml yn demtasiwn i ddarllen ryw lyfr diddorol, yn lle bwrw 'mlaen â'r gwaith o deipio cardiau ar gyfer y catalog nesa.

Felly 'roedd hi, y diwrnod o'r blaen. Cefais fy swyno gan y llyfr yn bach yma, ac 'roedd yn rhaid ei ddarllen:

*Rheolau cyffredinol i Ysgolion Sabbathol y Methodistiaid Calviniaidd yn Siroedd Gwynedd, a benderfynwyd arnynt yng nghymdeithasfa Y Wyddgrug, 1836. 18tt., amlen las.*

Yn gyntaf, mae'r Rheolau'n gosod allan ddyletswyddau'r swyddogion, h.y. yr Arolygwr, yr Ysgrifenyddion, a'r Athrawon, a'u cymwysterau at y gwaith.

Un ddyletswydd sy' gan yr Arolygwr yw gofalu 'fod yr Ysgol yn cael ei dibenu mewn iawn bryd; nid yn gynt, fel y myn rhai athrawon diog, nag yn hwy na'r amser, rhag taflu rhwystr i'r teuluoedd a dyrys moddion ereill o ran amser.'

Mae gan athrawon ddyletswyddau i ofalu am eu disgyblion nid yn unig yn yr ysgol ond y tu allan hefyd, e.e. pe byddai plant yn glaf, rhaid

'ymweled â hwynt yn ddioed ac yn fynych, a dangos mawr serch tuag atynt tra byddont felly.'

Dylai athro neu athrawes ddysgu 'sillebu a darllen yn gywir, ac i sylwi ar yr acenau, yr attaliadau, a'r nodau.'

Ac yna cawn reolau i'r ysgolheigion. Ymhlith y rhain: 'Na fydded i chwi newid neu ffeirio unrhyw beth yn yr ysgol, na bwytta ffrwythau, na dim arall.'

'Gofalwch am gerdded y llwybrau; gadewch y lliidiadau fel y caffoch hwynt. Nac ewch i mewn i erddi na pherllanau.'

'Tyned y meibion eu hetiau wrth fyned i mewn i'r ysgol; ewch i'ch llefydd yn dawel heb lygaid-rythu o'ch amgylch, na thrystio a'ch traed, na swnio y corau.'

'Pan y derbyniwch rodd .... y mae yn gweddu i feibion ogwyddo eu pennau yn addas, a'r merched ymostwng.'

'Sefwch mewn dull bywiog, ar eich traed wrth ganu a'ch holi, heb bwysu ar neb.'

YN ôl y rheolau, 'roedd yr ysgol i'w threfnu yn ddosbarthiadau, y

meibion a'r merched ar wahân, heb fod mwy na 5 neu 6 ym mhob dosbarth, a dyma'r graddau:

Gradd 1. Yr Egwyddor; 2. Geiriau un sill; 3. Yr egwyddorig cyntaf; 4. Yr egwyddorig yr ail; 5. Y Testamentau; 6. Y Biblau.

Rhaid peidio a symud neb i fyny un dosbarth nes ei fod yn addas; 'Mae gwneuthur yn gwrthwyneb i hyn yn tueddu i'w gwneud yn ddarllenwyr bongleraidd trwy eu hoes.'

Ar ddiwedd y llyfr yn mae tabl yn awgrymu sut i gadw cofnodion yr ysgolion a'u llafur bob Sul, gyda lle i'r nifer o adnoddau a adroddwyd, penodau o'r Hyfforddwr a'r Rhodd Mam, a'r nifer o adroddodd y Gorchmynion.

Fe fyddai'r ysgolheigion gorau yn cael gwobrau, wrth gwrs. Un tro, cawsom gasgliad o bump o lyfrau emynau bach, bach (miniatures). Gwobrwyon Ysgol Sul oedd y rhain, wedi eu hargraffu gan J.J. Jones, Llanrwst, tua'r un amser a'r Rheolau. 44 x 35 mm. oedd bob un a 16tt. Rhai prydfert hawn, pob un mewn amlen ddu gyda phatrwm aur; y teitlau; casgliad o hymnau; y caniedydd; y pererin; y seraph; y cerub.